Met Office

Darganfod yn ddyfnach



# Tywydd eithafol

## Hysbyseb tywydd eithafol

**1** Os yw'r bobl ifanc rydych yn gweithio gyda nhw yn newydd i'r cysyniad o dywydd eithafol, efallai yr hoffech ddechrau'r wers gyda chyflwyniad byr. Gallech ddangos y **ffilm digwyddiad tywydd eithafol** (hyperddolen ar sleid 2) a gofyn i'r bobl ifanc a allan nhw feddwl am enghreifftiau o dywydd eithafol maen nhw wedi clywed amdanynt a meddwl am beth sy'n gwneud y digwyddiadau hynny yn eithafol. Os ydych chi angen gwybodaeth ychwanegol, fideos neu ddelweddau, gallwch ganfod adnoddau ychwanegol **yma**.

**2** Rhannwch bawb mewn grwpiau o dri a heriwch nhw i ddychmygu eu bod yn gweithio i sefydliad sy'n goruchwylio ymchwil ar ddigwyddiadau tywydd eithafol yn y gorffennol ac yn helpu pobl i baratoi ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol a lleihau (lliniaru) eu heffeithiau yn y dyfodol.

**3** Gan ddefnyddio **astudiaethau achos o wefan y Swyddfa Dywydd**, gofynnwch i bawb ddewis astudiaeth achos a meddwl am y cwestiynau canlynol i ysgogi eu hymchwil (ar sleid 3):

- Beth oedd y digwyddiad?
- Pryd digwyddodd e?
- Ar bwy oedd hyn wedi effeithio a sut?

30 Munud

Gwaith grŵp

Tywydd eithafol advert slides

Case studies on the Met Office website

- Beth oedd pobl yn gwneud cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad i liniaru (neu lleihau) y dylanwadau ac effeithiau iddyn nhw eu hunain a'r ardal leol? Allen nhw fod wedi gwneud unrhyw beth arall?
- I ba raddau ydych chi'n meddwl y bydd mwy o ddigwyddiadau fel hyn neu ddigwyddiadau mwy difrifol yn y dyfodol?

4 Esboniwch y bydd pob grŵp nawr yn paratoi hysbyseb am dywydd eithafol. Gofynnwch i bawb ddychmygu bod digwyddiad tebyg i'r un maen nhw newydd edrych arno yn digwydd yn yr ardal leol maen nhw'n gweithio ynddo a'u bod angen creu poster, taflen neu hysbyseb teledu /radio /podlediad neu fwletin tywydd sy'n disgrifio beth ddylid ei wneud i ymateb i a lliniaru effeithiau eu digwyddiad tywydd eithafol yn y dyfodol. Dywedwch wrthyn nhw bod ganddynt 20 munud i wneud yr ymchwil a chreu eu hysbyseb.

Cyn iddynt ddechrau, anogwch nhw i feddwl am sut maen nhw am weithio fel tîm a sut allan nhw reoli'r gwaith yn effeithiol gyda'i gilydd. Awgrymwch rannu'r rolau efallai: gallai rhywun ddarllen eu canfyddiadau yn uchel tra bod rhywun arall yn cymryd nodiadau; gallai rhywun gadw llygad ar yr amser, ac ati. Os oes ganddynt fynediad i fwy nag un ddyfais, gallent rannu'r cwestiynau a phob un i ganolbwyntio ar un neu ddau gwestiwn. Dywedwch wrthynt eu bod yn gweithio fel tîm a'u bod gan hynny yn gyfrifol am reoli'r llwyth gwaith.

5 Ar ddiwedd y gweithgaredd, gofynnwch iddyn nhw ystyried yr hyn maen nhw wedi ei ddysgu. Beth oedd wedi eu synnu yn yr ymchwil? Gofynnwch hefyd sut oeddynt yn teimlo ynghylch gweithio fel grŵp. A oedd yn hawdd? Yn anodd? Sut lwyddon nhw i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol?

25 Munud

Gwaith grŵp

## Estyniad

Os oes gennych amser, gofynnwch i bob grŵp yn eu tro gyflwyno eu hysbyseb a dweud wrth y dosbarth am eu tywydd eithafol. Caniatewch amser am gwestiynau gan weddill y dosbarth a gofynnwch am adborth ar eglurder y cyflwyniad - oedd yna gamau gweithredu clir, a fyddai'r hysbyseb hwn yn helpu pobl i wneud penderfyniad deallus, oedd y wybodaeth am yr effeithiau yn gywir?



© Hawlfraint y Goron 2022, Y Swyddfa Dywydd